OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2414 (Cy.222)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU
IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - - 15 Medi 2004

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(b)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22(1), (2)(a), (b), (7)(c) a 118(6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac adrannau 79C(2), (3)(b), (f) a (104)(a) o Ddeddf Plant 1989(**2**), a chan ei fod o'r farn nad yw drwy hyn yn rhoi ar waith unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wnaed eisoes gan reoliadau o dan adran 22 o Ddeddf 2000(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. O ran y Rheoliadau hyn—

(a) eu henw yw Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2004;

(b) deuant i rym y diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny—

(**1**) 2000 p. 14. Rhoddir y pwerau i'r Gweinidog priodol. Ystyr "appropriate Minister" mewn perthynas â Chymru yw'r Cynulliad (adran 121(1) o Ddeddf 2000); ystyr "Assembly" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (adran 5(1)(b) o Ddeddf 2000). *Gweler* adran 121(1) o Ddeddf 2000 am y diffiniad o "regulations".

(**2**) 1989 p. 41. Rhoddwyd y pwerau i'r Cynulliad. Ystyr "the Assembly" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (adran 79B(2) o Ddeddf 1989). Mewnosodwyd adran 79C yn Neddf 1989 gan adran 79(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

(**3**) Mae adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn darparu bod yn rhaid i'r "appropriate Minister", cyn iddo wneud rheoliadau o dan yr adran honno, ymgynghori ag unrhyw berson y mae o'r farn ei fod yn berson priodol, onid yw'r rheoliadau'n diwygio rheoliadau eraill a wnaed o dan yr adran honno ac nad ydynt, ym marn y Gweinidog, yn rhoi ar waith unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wnaed gan y rheoliadau hynny.

(**4**) O.S. 2002/324 (Cy. 37); gwnaed y diwygiad perthnasol gan O.S. 2002/2622 (Cy. 254).

(a) ym mharagraff 2, ar ôl y geiriau "o dan Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "ac yn ddarostyngedig i baragraff 8";

(b) ar y diwedd mewnosoder y canlynol—

"**8.** Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 am i dystysgrif gynnwys y materion a bennir yn adran 113(3C) neu 115(6B) o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn gymwys mewn perthynas â thystysgrif oedd ar gael at ddibenion y Rheoliadau hyn yn syth cyn 26 Gorffennaf 2004."

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(**5**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny—

(a) ym mharagraff 2, ar ôl y geiriau "o dan Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "ac yn ddarostyngedig i baragraff 8";

(b) ar y diwedd mewnosoder y canlynol—

"**8.** Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 am i dystysgrif gynnwys y materion a bennir yn adran 113(3C) neu 115(6B) o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn gymwys mewn perthynas â thystysgrif oedd ar gael at ddibenion y Rheoliadau hyn yn syth cyn 26 Gorffennaf 2004."

Diwygio Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

4.—(1) Diwygir Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002(**6**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny—

(a) ym mharagraff 2, ar ôl y geiriau "o dan Ddeddf yr Heddlu 1997" mewnosoder "ac yn ddarostyngedig i baragraff 9";

(b) ar y diwedd mewnosoder y canlynol—

"**9.** Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 am i dystysgrif gynnwys y materion a bennir yn adran 113(3C) neu 115(6B) o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn gymwys mewn perthynas â thystysgrif oedd ar gael at ddibenion y Rheoliadau hyn yn syth cyn 26 Gorffennaf 2004."

Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003

5.—(1) Diwygir Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003(**7**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny—

(a) ym mharagraff 2, ar ôl "os yw'n gymwys" mewnosoder "ac yn ddarostyngedig i baragraff 10";

(b) ar y diwedd mewnosoder y canlynol—

"**10.** Ni fydd y gofyniad ym mharagraff 2 am i dystysgrif gynnwys y materion a bennir yn adran 113(3C)(a) a (b) neu 115(6B)(a) a (b) o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn gymwys mewn perthynas â thystysgrif oedd ar gael at ddibenion y Rheoliadau hyn yn syth cyn 26 Gorffennaf 2004."

(3) Yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny—

(**5**) S.I. 2002/327 (Cy. 40); gwnaed y diwygiad perthnasol gan O.S. 2002/2622 (Cy. 254).
(**6**) O.S. 2002/325 (Cy. 38); gwnaed y diwygiad perthnasol gan O.S. 2002/2622 (Cy.254).
(**7**) O.S. 2003/2527 (Cy. 242).